# Adrodd ar Adran 6

## Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned

***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6***
***Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***

| **Adroddiad 2025**<br>**Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau** | |
|---|---|
| **Enw y Cyngor Tref neu Gymuned:** | Cyngor Cymuned Dolbenmaen |
| **Grŵp:** | |

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**

Mae'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen yn cynnwys wardiau **Bryncir, Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Phentrefelin.** Mae ardal Golan wedi ei gynnwys yn ymgais llwyddiannus Cyngor Gwynedd i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Poblogaeth o 1009 (Cyfrifiad 2021) sydd gan Ward Dolbenmaen, ac mae'n ymestyn dros 8,609 hectar. Mae'r Cyngor Cymuned yn weithgar iawn ac yn gwneud gwaith amgylcheddol, yn cefnogi datblygiadau cymunedol ac yn cynorthwyo'r trigolion gyda materion personol a chymunedol.

Y praesept ar gyfer 2025 – 2026 yw £18,000.

Mae'r gwasanaethau canlynol sy'n cael eu darparu gan y Cyngor yn cael effaith ar fioamrywiaeth:
• Cyfrifoldeb am dorri gwair mewn 5 Mynwent.
• Torri gwair 18 o lwybrau cyhoeddus sy'n cael eu defnyddio'n gyson.
• Torri gwair Cae Chware Penmorfa.

Mae Cyngor Cymuned Dolbenmaen yn cydnabod pwysigrydd o ddiogelu a gwella bioamrywiaeth o fewn y gymuned. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd (2023-2025), sut mae ein penderfyniadau a'n gweithgareddau'n ystyried bioamrywiaeth, a'n cynlluniau i wella ar gyfer y dyfodol.

**Adroddiad Gweithredu 2023 - 2025**

| **Amcan NRAP** | **Camau gweithredu i...** | | **Wedi eu monitro gan:** |
|---|---|---|---|
| 1 | -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Mae bioamrywiaeth yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau a sylw ar geisiadau cynllunio.<br><br>e.e. yn ddiweddar gwrthodwyd cefnogi cais cynllunio yng Nghwm Pennant gan y byddai yn or-ddatblygiad ac cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth. | Cyngor Cymuned Dolbenmaen yn eu cyfarfodydd misol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Rhannu gwybodaeth yng nghyfarfodydd misol y cyngor.<br>Rhannu gwybodaeth gyda phwyllgorau lleol megis Cae Chwarae Penmorfa a'r Neuaddau Pentref<br>Cofnodion y Cyngor Cymuned<br>Adroddiad Blynyddol | Clerc y Cyngor Cymuned pan dderbynnir gwybodaeth ddefnyddiol parthed bioamrywiaeth. |
| **2** | -diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd | Hysbysu asiantaethau megis Cyngor Gwynedd, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Parc Cenedlaethol o dyfiant rhywogaethau ymledol mewn ardaloedd cadwraeth arbennig.<br><br>Adroddwyd i CNC yn fod yna goed helyg a rhododendrons yn gor-dyfu yng Nghors Graianog. Gofynnwyd iddynt roi sylw i'r mater. | Cyngor Cymuned yn eu cyfarfodydd misol |
| **3** | -adfer & chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | **Toriadau Gwair Mynwentydd.**<br>Toriadau yn cael eu gwneud rhwng mis Mai a mis Hydref – y mwyafrif o doriadau yw chwech a hynny yn y mynwent brysuraf o fewn y gymuned.<br><br>**Llwybrau Cyhoeddus**<br><br>Mwyafrif o lwybrau yn cael eu torri un waith mewn blwyddyn. Un neu ddau o'r rhai prysuraf yn derbyn ail doriad. Y toriadau cyntaf yn dueddol o gael eu gwneud ym mis Mehefin.<br><br>**Cae Chwarae Penmorfa**<br><br>Cae chwarae Penmorfa yn cael ei dorri chwe gwaith mewn blwyddyn. Y toriadau yn cael eu gwneud rhwng mis Mai a Hydref.<br><br>**Torri Coed**<br><br>Mae yna goed wedi bod eisiau cael eu torri yn ddiweddar – un ar lwybr ym Mhrenteg ac mae un arall angen ei dorri yn y fynwent yng Nghwm Pennant. Defnyddir cwmni lleol i wneud y gwaith. Mae'r contractwr wedi torri'r coed ac | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi creu pentyrrau cynefinol gyda'r gweddillion. | |
| **4** | -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Mae'r Cyngor Cymuned yn credu'n gryf mewn cefnogi siopau a busnesau lleol.<br><br>Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus ac wedi derbyn grant i brynu offer fideo gynadleddau i'r holl neuaddau pentref o fewn y gymuned Gobeithir cwblhau'r prosiect yma erbyn diwedd 2025.<br><br>Cyfrannu'n ariannol –<br>• I drin canclwm Japan yng nghae Chwarae Penmorfa dros gyfnod o 3 blynedd.<br>• Trin coed onnen wedi eu heintio.<br><br>Mae yna fin ailgylchu wedi cael ei osod ym Mynwent Bethel, Golan. | |
| **5** | -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | Rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd misol. | |
| **6** | -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | Cydweithio gyda Phwyllgor Cae Chwarae Penmorfa a'u cefnogi yn ariannol i reoli canclwm Japan yn rheolaidd.<br><br>Byddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried rhoi rhodd ariannol i unrhyw grŵp gwirfoddol sy'n cael ei sefydlu ar gyfer, er enghraifft, casglu sbwriel. | |

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda?** | Defnyddio cwmniau/busnesau lleol i gwblhau gwaith. |
| **Beth fu'r rhwystrau?** | Nid oes gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen dir i allu datblygu neu greu cynefinoedd na llawer o fannau cyhoeddus. Derbyn ambell i gŵyn gan breswylwyr bod gwair mynwentydd angen eu torri. |
| **Beth fyddwch yn ei newid?** | Cysylltu gyda Swyddog Bioamrywiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac Unllais Gwynedd i weld os oes unrhyw beth allent awgrymu y gallwn wneud gyda'r ychydig iawn o dir sydd gan y Cyngor Cymuned (Mynwentydd) |
| **Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?** | Bydd y ddyletswydd yn cael ei fonitro ym Mhwyllgor Cyllid a Llywodraethiant neu drwy archwiliadau arferol. Bydd y Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yn ngoleuni unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a wneir ar gael i'r Cyngor. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, nid oedd dyddiad penodol wedi ei bennu. |

Cymeradwywyd gan y Cyngor Cymuned ar yr y **4ydd o Ragfyr 2025**